Dyddiad cyhoeddi: 23 Mawrth 2018

Enwau busnes gan gynnwys geiriau sensitif sydd angen eu cymeradwyo

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 18 Mawrth 2018 pan ofynnoch am wybodaeth am enwau busnes gan gynnwys geiriau sensitif sydd angen eu cymeradwyo.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiynau isod ac wedi amlinellu ein hymateb cyfatebol.

1) Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan eich sefydliad i ddefnyddio geiriau sensitif yn ystod blwyddyn galendr 2017;
2) Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan eich sefydliad i ddefnyddio geiriau sensitif ym mlwyddyn galendr 2017 a gafodd eu cymeradwyo yn dilyn hynny;
3) Enwau pob un o'r busnesau arfaethedig a gyflwynodd gais i'ch sefydliad i ddefnyddio geiriau sensitif yn ystod blwyddyn galendr 2017;
4) Enwau pob un o'r busnesau arfaethedig a gyflwynodd gais i'ch sefydliad i ddefnyddio geiriau sensitif yn ystod blwyddyn galendr 2017 a gafodd eu cymeradwyo yn dilyn hynny;
5) Yr holl ohebiaeth yn ymwneud â'r ceisiadau a dderbyniwyd gan eich sefydliad i ddefnyddio geiriau sensitif yn ystod blwyddyn galendr 2017 na chafodd eu cymeradwyo.

Rydym yn dal ychydig o wybodaeth ar ffurf gohebiaeth gan dri unigolyn mewn perthynas â defnyddio'r geiriau canlynol mewn enwau busnes arfaethedig: Wales, Cymru a King. Ymatebodd Swyddfa Archwilio Cymru i bob un o'r rhain, a oedd yn cynnwys y geiriad canlynol:

"Os ydych yn bwriadu ymgorffori cwmni neu wirio pa enwau sy'n dderbyniol ar gyfer cwmni, rydym yn credu y dylech gysylltu â Thŷ'r Cwmnïau neu gynghorydd cyfreithiol cymwysedig (os nad ydych wedi gwneud eisoes).Mae gwefan Tŷ'r Cwmnïau yn darparu arweiniad:www.gov.uk/government/organisations/companies-house

Rwyf yn sylweddoli, fodd bynnag, efallai y gwnaethoch ysgrifennu atom am eich bod wedi darllen neu wedi cael eich cynghori bod Rheoliadau 2015 Cwmnïau, Atebolrwydd

Cyfyngedig Partneriaeth a Busnes (Datgeliadau Enwau a Masnachu) yn nodi pan fyddai enw'n debygol o roi'r argraff bod cysylltiad ag awdurdod cyhoeddus, bod yn rhaid i'r ymgeisydd geisio caniatâd y corff priodol. Os felly, gallaf gadarnhau nad ydym yn ystyried bod unrhyw debygolrwydd y bydd eich cynnig yn rhoi argraff bod cysylltiad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Swyddfa Archwilio Cymru ac, yn unol â hynny, nad oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'ch cynnig. Er hynny, nid yw'r ffaith nad ydym yn gwrthwynebu yn golygu bod eich cynnig o reidrwydd yn dderbyniol, oherwydd gall fod rhesymau eraill sy'n golygu na fydd modd ei gofrestru - er enghraifft, os yw'n debyg iawn i enw cwmni sydd eisoes yn bodoli.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'r gorau i chi â'ch busnes yn y dyfodol."

Y wybodaeth mewn perthynas â hunaniaeth yr unigolion a'u cynigion, yw gwybodaeth bersonol y trydydd partïon hynny ac mae'r gyfryw wybodaeth yn dod o fewn yr esemptiad gwybodaeth bersonol a ddarperir gan Adran 40 (2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), sy'n esemptiad llwyr. Mae'r esmptiad yn berthnasol gan y byddai datgelu yn mynd yn groes i egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 1998. Yn unol â hyn, rwyf wedi dal y wybodaeth hon yn ôl.

Os hoffech gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr yr Adran Gyfraith a Moeseg, drwy anfon neges e-bost at martin.peters@audit.wales neu lythyr i
24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi eich cyfeirio hefyd at Adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n caniatáu i chi wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad am a ymdriniwyd â'ch cais mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ai peidio. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl eich bod wedi dilyn pob un o'n gweithdrefnau cwyno mewnol i'r eithaf cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: ico.org.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir